# Pymthegfed Sul wedi'r Drindod

**20 Medi 2020**
**Litwrgi'r Gair i'w ddefnyddio ar yr aelwyd**

# Fifteenth Sunday after Trinity

**20 September 2020**
**Liturgy of the Word for use at home**

## Paratoi
## Preparation

*Gwnewch pa baratoadau bynnag y byddwch eu hangen i gyfarfod â thân yr Ysbryd a goleuni Duw. Efallai yr hoffech gynnau cannwyll. Os ydych chi wedi dewis ystum penodol i'ch corff, gwnewch hynny. Ceisiwch gael gwared ar unrhyw beth sy'n tynnu eich sylw ac yn amharu arnoch chi.* ***Make whatever preparations you need to encounter the fire of the Spirit and the light of God. You may want to light a candle. If you have chosen a specific bodily position, adopt it. Eliminate distractions and the possibility of interruption.***

## Ymgynnull
## Gathering

*Rydym yn galw ar yr Ysbryd Glân a fydd yn siarad gyda ni ac yn gwrando arnom ni wrth i ni addoli, darllen a gweddïo.* ***We invoke the Holy Spirit, who will speak to us and listen in us as we worship, read and pray.***

Yn enw'r Tad,
a'r Mab,
a'r Ysbryd Glân.
**Amen.**

Cyn seilio'r byd,
fe'n dewisodd yng Nghrist
i fod yn bobl sanctaidd.
**I'n dwyn i undod yng Nghrist;**
**ger ei fron mewn cariad.**

Gras gogoneddus Duw.
**Yn rhad rodd i ni yn yr Anwylyd.**

In the name of the Father,
and of the Son,
and of the Holy Spirit.
**Amen.**

Before the foundation of the world,
God chose us in Christ
to be a holy people.
**To be brought into a unity**
**in Christ;**
**to be full of love.**

The glorious grace of God.
**Freely bestowed on us**
**in the Beloved.**

## Gweithred o edifeirwch
## Act of contrition

*Drwy gydnabod ein pechodau a'n hangen am faddeuant, rydym yn gofyn i Dduw gymryd y cam cyntaf yn y cyfarfod hwn.* ***By acknowledging our sinfulness and our need for forgiveness, we ask God to take the initiative in this encounter.***

Trugarha wrthym, O Dduw.
**Rydym wedi pechu yn dy erbyn.**

Dangos i ni, O Dduw, dy drugaredd.
**A dyro i ni dy iachawdwriaeth**

Bydded i Dduw ein Tad faddau i ni a'n gwared oddi wrth ein holl bechodau, a rhoddi inni ras a nerth yr Ysbryd Glân.
**Amen.**

Have mercy on us, O God.
**For we have sinned against you.**

Show us, O God, your mercy.
**And grant us your salvation.**

May God our Father pardon and deliver us from all our sins, and grant us the grace and power of the Holy Spirit.
**Amen.**

## Gair Duw
## The word of God

*Darllenwn ddarnau o'r Ysgrythur o Feibl o'n dewis; maent hefyd ar gael ar wefan yr esgobaeth. Darllenwn yn ofalus, er mwyn, fel petai, i'r enaid glywed.* ***We read passages of Scripture from a Bible of our choice; they are also available on the diocesan website. We read carefully, so that the soul might hear.***

*Darlleniad o'r Testament Newydd*
*New Testament reading*
**Philipiaid | Philippians 1:21-30**

*Darlleniad o'r Efengyl*
*Gospel reading*
**Mathew | Matthew 20:1-16**

*Ar ddiwedd pob darlleniad:* ***At the end of every reading:***

***Tarddiadau a hawlfraint*** *Daw deunydd yma o'r* ***Llyfr Gweddi Gyffredin i'w arfer yn yr Eglwys yng Nghymru: Gweddi Ddyddiol 2009****, hawlfraint Corff Cynrychioli yr Eglwys yng Nghymru 2009. Mae gweddill y deunydd a'r drefn yn hawlfraint Bwrdd Cyllid Esgobaeth Bangor 2020. Caniateir atgynhyrchu'r deunydd hwn gyda chydnabyddiaeth.*

***Sources and copyright*** *Material here is taken from* ***The Book of Common Prayer for use in the Church in Wales: Daily Prayer 2009****, copyright the Representative Body of the Church in Wales 2009. The reminder of the material and the order is copyright the Bangor Diocesan Board of Finance 2020. The material may be reproduced with acknowledgement.*

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

Gwrandewch ar yr hyn y mae'r Ysbryd yn ei ddweud wrth yr Eglwys.
**Diolch a fo i Dduw.**

Ffrwyth yr Ysbryd yw.
**cariad, llawenydd, tangnefedd, amynedd, caredigrwydd, haelioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunan-reolaeth.**

Hear what the Spirit is saying to the Church.
**Thanks be to God.**

This is the fruit of the Spirit.
**love, joy, peace, patience, kindness, generosity, faithfulness, gentleness and self-control.**

## Myfyrdod
## Meditation

*Mae gwahoddiad i wrando arlein ar wefan yr esgobaeth ar fyfyrdod yr Esgob. Os na allwn wneud hynny, dyma gyfle i gael sgwrs gariadus gyda Duw ynghylch yr Ysgrythur a ddarllenwyd; cyfle i sôn pam fod rhai pethau penodol yn y testun yn arwyddocaol i ni.* ***We are invited to listen online on the diocesan website to the Bishop's meditation. If we cannot do so, here is the opportunity to have a loving conversation with God about the Scripture we have read; an opportunity to talk about why particular things in the text were significant for us.***

## Gweddi
## Prayer

*Ysgrifennodd Santes Teresa o Avila mai "nid llawer o feddwl yw gweddi ond llawer o garu;" felly treuliwn amser ger bron Duw mewn tawelwch. Gallwn hefyd weddïo fel a ganlyn.* ***St Teresa of Jesus wrote that "prayer is not a lot of thinking but a lot of loving;" so we also spend some time before God in silence. We can also pray as follows.***

Gweddïwn ar y Tad.

Ar i'r Eglwys fod yn un wrth dystio i'r Efengyl a'i chyhoeddi.
Gweddïwn arnat ti, ein Tad.
**O Dduw, trugarha.**

Am heddwch a sefydlogrwydd i'r holl bobloedd, a thros arweinwyr y cenhedloedd.
Gweddïwn arnat ti, ein Tad.
**O Dduw, trugarha.**

Dros y claf a'r sawl sy'n dioddef, a phawb sy'n gweini ar eu hanghenion.
Gweddïwn arnat ti, ein Tad.
**O Dduw, trugarha.**

Am fendith ar ein cartrefi; dros ein perthnasau a'n cyfeillion a phawb a garwn.
Gweddïwn arnat ti, ein Tad.
**O Dduw, trugarha.**

Cyflwynwn ein hunain, a phawb y gweddïwn drostynt, i drugaredd a nodded Duw.
**Dad trugarog,**
**derbyn y gweddïau hyn**
**er mwyn dy Fab,**
**ein Gwaredwr Iesu Grist.**
**Amen.**

Let us pray to the Father.

For the unity of the Church in witness and proclamation of the Gospel.
We pray to you, our Father.
**God, have mercy.**

For the peace and stability of all peoples, and for the leaders of the nations.
We pray to you, our Father.
**God, have mercy.**

For the sick and suffering, and all who minister to their needs.
We pray to you, our Father.
**God, have mercy.**

For a blessing on our homes; for our relations and friends and all whom we love.
We pray to you, our Father.
**God, have mercy.**

Let us commend ourselves, and all for whom we pray, to the mercy and protection of God.
**Merciful Father,**
**accept these prayers**
**for the sake of your Son,**
**our Saviour Jesus Christ.**
**Amen.**

## Casgliad
## Conclusion

*Adroddwn Weddi'r Arglwydd.* ***We say the Lord's Prayer.***

Byddwch yn eiddgar
i gynnal undod yr ysbryd.
**Yn rhwymyn tangnefedd.**

O Dduw, yn dy drugaredd hael anfonaist yr Ysbryd Glân ar dy Eglwys, yn nhân ysol dy gariad: caniatâ i'th bobl fod yn danbaid yng nghymdeithas yr efengyl fel, gan fyw'n wastadol ynot ti, y ceir hwy yn gadarn mewn ffydd ac yn ymroddgar eu gwasanaeth; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, sy'n fyw ac yn teyrnasu gyda thi a'r Ysbryd Glân, yn un Duw, yn awr ac am byth.
**Amen.**

Alelwia! Atgyfododd Crist.
**Atgyfododd yn wir. Alelwia!**

Bendithied Dduw ni,
cadwed ni rhag drwg,
a'n dwyn i fywyd tragwyddol.
**Amen.**

Be eager to maintain
the unity of the spirit.
**In the bond of peace.**

Almighty God, who called your God, who in generous mercy sent the Holy Spirit upon your Church in the burning fire of your love: grant that your people may be fervent in the fellowship of the gospel that, always abiding in you, they may be found steadfast in faith and active in service; through Jesus Christ your Son our Lord, who is alive and reigns with you and the Holy Spirit, one God, now and for ever.
**Amen.**

Alleluia Christ is risen!
**He is risen indeed. Alleluia!**

May God bless us,
and keep us from all evil,
and bring us to everlasting life.
**Amen.**

*Rydyn ni'n troi'n ôl, at ein gweithgareddau pob dydd, yn cario gyda ni yr hyn rydyn ni wedi'i dderbyn yn ein meddyliau ac yn ein calonnau. "Ac felly," ysgrifenna Romero de Lima Gouvêa, "yn ôl at fywyd – i fyw mewn ffordd newydd – i newid, i dderbyn gras ac i fethu – i ddyfnhau'r gofod y mae Duw yn dymuno ei lenwi – i ddychwelyd bob dydd at ffynhonnell bywyd a chariad, Iesu, Gair Duw."* ***We turn back, to our everyday activities, carrying with us what we have received in our minds and our hearts. "And so," in the words of Romero de Lima Gouvêa, "back to life – to live in a new way – to be changed, graced and to fail – to deepen the space which God desires to fill – and to return daily to the source of life and love, Jesus, the Word of God."***